Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
His Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Ysgol Gynradd Parc Y Bont

**Llanddaniel fab**
**Ynys Môn**

**LL60 6HB**

**Dyddiad yr arolygiad: Gorffennaf 2024**

**gan**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Fawrhydi dros Addysg**

**a Hyfforddiant yng Nghymru**

## Ynglŷn ag Ysgol Gynradd Parc Y Bont

| | |
|---|---|
| Enw'r darparwr | Ysgol Gynradd Parc Y Bont |
| Awdurdod lleol | Cyngor Sir Ynys Môn |
| Iaith y darparwr | Cymraeg |
| Math o ysgol | Cynradd |
| Cymeriad crefyddol | |
| Nifer y disgyblion ar y gofrestr | 105 |
| Nifer y disgyblion o oedran ysgol statudol | 91 |
| Nifer mewn dosbarthiadau meithrin (os yw'n berthnasol) | 7 |
| Canran y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd (Canran genedlaethol y disgyblion sy'n gymwys i gael prydau ysgol am ddim dros gyfartaledd o dair blynedd yn y sector Cynradd yw 23.7%) | 4.7% |
| Canran y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol (a) (Canran genedlaethol y disgyblion y nodwyd bod ganddynt anghenion dysgu ychwanegol yn y sector Cynradd yw 13.2%) | 14.3% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Cymraeg ar yr aelwyd | 52.7% |
| Canran y disgyblion sy'n siarad Saesneg fel iaith ychwanegol | 0.0% |
| Dyddiad penodi'r pennaeth | |
| Dyddiad yr arolygiad blaenorol gan Estyn (os yw'n berthnasol) | |
| Dyddiad dechrau'r arolygiad | 01/07/2024 |

Daw'r data hwn o ddata mwyaf diweddar y Cyfrifiad Ysgol Blynyddol ar Lefel Disgybl. Efallai y byddant ychydig yn wahanol i'r hyn a arsylwyd yn ystod yr arolygiad.

Mae gwybodaeth ychwanegol ar gael o wefan Llywodraeth Cymru, Fy Ysgol Leol:

Fy Ysgol Leol (gov.wales) Mae'r term 'anghenion addysg arbennig' yn cael ei ddefnyddio i ddisgrifio disgyblion sydd ar gofrestr AAA yr ysgol.

## Trosolwg

Mae Ysgol Parc y Bont yn gymuned ddysgu gartrefol a chynhwysol sy'n hyrwyddo lles disgyblion a staff yn llwyddiannus. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymddwyn yn dda iawn ac maent yn ymdrin ag eraill gyda chwrteisi a pharch cynhenid. Mae disgyblion yn teimlo'n ddiogel tra'n dysgu ac wrth chwarae, ac yn mwynhau eu hamser yn yr ysgol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cryf mewn ystod o fedrau o'u mannau cychwyn, yn enwedig yn eu medrau mathemateg ac ysgrifennu, ac yn eu cymhwyso'n llwyddiannus ar draws ystod eang o feysydd dysgu. Mae'r ddarpariaeth ar gyfer cefnogi medrau dysgu disgyblion ag anghenion dysgu ychwanegol (ADY) yn fuddiol. O ganlyniad, maent yn gwneud cynnydd da dros amser.

Darperir cwricwlwm gan staff sy'n ysgogol, eang a chytbwys i ddisgyblion. Mae'r modd mae athrawon yn gwneud defnydd medrus o ymwelwyr ac ymweliadau fel sbardun ar gychwyn themâu i danio dychymyg disgyblion yn rhinwedd nodedig o'r ddarpariaeth. O ganlyniad, mae'r disgyblion yn cael eu hysbrydoli ac mae eu hagweddau a'u gwydnwch wrth ddysgu yn gadarn. Mae staff yn adnabod anghenion y disgyblion yn dda iawn ac yn ystyried eu syniadau wrth gynllunio gweithgareddau dysgu, sy'n sicrhau bod ganddynt berchnogaeth dros eu dysgu. Er hyn, ar draws yr ysgol, nid yw athrawon yn darparu digon o gyfleoedd i ddisgyblion wneud penderfyniadau yn annibynnol ar sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae disgyblion yn datblygu eu medrau Cymraeg yn gynyddol hyderus wrth gyfathrebu. Cynllunnir profiadau dysgu gan staff sy'n hyrwyddo hanes a thraddodiadau lleol a chenedlaethol yn gelfydd. Mae hyn yn dwysáu eu dealltwriaeth o'u lle mewn cymdeithas a phwysigrwydd  bod yn ddinasyddion cyfrifol a chydwybodol.

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir a chadarn ar gyfer meithrin 'cymuned sy'n tyfu a ffynnu fel un'. Mae llywodraethwyr yn weithredol wrth herio a chefnogi staff ac maent yn dangos ymwybyddiaeth dda o'u rolau a'u cyfrifoldebau. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth gyson o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella. Mae gan staff berthynas waith gynhyrchiol â rhieni. Fodd bynnag, nid yw dulliau cyfathrebu'r ysgol yn ddigon effeithiol bob amser, ac nid oes dealltwriaeth gytûn rhwng yr ysgol a'r rhieni o sut i godi materion am les a dysgu eu plant.

## Argymhellion

A1 Darparu cyfleoedd cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol ar sut y maent am gyflawni a chyflwyno eu gwaith

A2 Cryfhau dulliau cyfathrebu rhwng yr ysgol a'r cartref, a sicrhau dealltwriaeth gytûn rhwng yr ysgol a'r rhieni wrth godi materion am les a dysgu eu plant

## Beth sy'n digwydd nesaf

Bydd yr ysgol yn llunio cynllun gweithredu i fynd i'r afael â'r argymhellion o'r arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

### Dysgu

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dechrau yn yr ysgol gyda medrau sylfaenol sy'n cyfateb i, neu'n uwch na, yr hyn a ddisgwylir ar gyfer eu cam datblygu a'u hoed. Yn ystod eu cyfnod yn yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd cadarn ar draws ystod o fedrau, yn enwedig yn eu medrau mathemateg ac ysgrifennu. Mae disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dros amser.

Mae medrau gwrando y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu'n gadarn. O oedran cynnar, maent yn gwrando'n oddefgar ar gyflwyniadau oedolion ac ar ei gilydd, gan barchu cyfraniadau eraill yn dda. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn sgwrsio am eu gwaith a'u profiadau yn hyderus a gyda brwdfrydedd naturiol, er enghraifft wrth drafod sut i blannu blodyn yr haul. Wrth i fedrau'r disgyblion ddatblygu, mae'r rhan fwyaf yn meithrin eu medrau llafar yn llwyddiannus yn y ddwy iaith. Mae'r disgyblion hynaf yn ymateb yn dda i gwestiynau gan fynegi barn yn aeddfed a defnyddio geirfa gyfoethog wrth gyflwyno safbwyntiau o blaid ac yn erbyn datgoedwigo, er enghraifft.

Ar draws yr ysgol, mae llawer o ddisgyblion yn gwneud cynnydd da yn eu medrau darllen. Mae'r disgyblion ieuengaf yn defnyddio ystod briodol o ddulliau ffoneg i ddarllen geiriau cyfarwydd ac anghyfarwydd yn gywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, mae'r rhan fwyaf yn darllen gyda rhuglder cynyddol ac yn trafod cynnwys eu llyfrau yn wybodus. Wrth i'w medrau ddatblygu, mae llawer o'r disgyblion hynaf yn darllen yn briodol mewn cyd-destunau amrywiol. Maent yn amrywio goslef eu llais yn bwrpasol ac yn defnyddio atalnodi yn gywir i greu naws i'r gynulleidfa. Erbyn cyrraedd brig yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cymhwyso'u medrau darllen yn fedrus i gywain gwybodaeth o wahanol ffynonellau yn Gymraeg a Saesneg, er enghraifft wrth ymchwilio i'r effeithiau niweidiol petai lefel y môr yn codi yn Ynys Môn ac yn fyd-eang.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu eu medrau ysgrifennu'n llwyddiannus wrth iddynt symud drwy'r ysgol. Maent yn dangos balchder arbennig at eu llawysgrifen a chyflwyniad taclus eu gwaith. O oedran cynnar, mae'r disgyblion ieuengaf yn dangos brwdfrydedd heintus at ysgrifennu wrth arbrofi â gwneud marciau, gan ffurfio llythrennau a geiriau syml yn gywir. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn ysgrifennu mewn ystod dda o gyd-destunau pwrpasol ar gyfer gwahanol gynulleidfaoedd, sy'n cynnwys ysgrifennu adroddiad papur newydd am hanes mordaith y Mimosa. Mae'r disgyblion hynaf yn defnyddio a chymhwyso eu medrau ysgrifennu yn y ddwy iaith mewn amrywiaeth o ffurfiau yn effeithiol. Mae'r rhan fwyaf yn gwella eu gwaith yn bwrpasol er mwyn mireinio a chyflwyno darnau o waith o

ansawdd uchel, er enghraifft wrth ysgrifennu llythyr ffurfiol at brif weinidog Cymru yn ei annog i ddiweddaru a chynnwys atyniadau newydd ar restr ‘Saith Rhyfeddod Cymru’.

Gwna’r rhan fwyaf o ddisgyblion, ar draws yr ysgol, gynnydd cryf iawn yn eu medrau mathemateg. O oedran cynnar, maent yn datblygu dealltwriaeth dda o rifau, maint a siâp. Mae gan y disgyblion ieuengaf adnabyddiaeth dda o nodweddion a phriodweddau siapiau 2D a 3D, ac maent eu defnyddio’n greadigol i greu dinosoriaid diddorol, er enghraifft. Erbyn diwedd Blwyddyn 2, maent yn cymhwyso eu medrau trin data yn bwrpasol, er enghraifft wrth gyflwyno canlyniadau arolwg blas hoff deisen anifeiliaid y fferm ar ffurf pictogram yn drefnus. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn adeiladu ar y medrau mathemateg yn llwyddiannus ac yn adio a thynnu ffracsiynau gan ddyblu a haneru rhifau tri digid yn gywir. Erbyn iddynt gyrraedd brig yr ysgol, mae gan y rhan fwyaf o ddisgyblion ddealltwriaeth gadarn o amrywiaeth dda o gysyniadau mathemateg ac maent yn eu cymhwyso ar draws y meysydd dysgu yn hynod effeithiol.

Ar draws yr ysgol, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn gwneud cynnydd effeithiol wrth feithrin eu medrau digidol mewn amrywiol gyd-destunau. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn defnyddio llechen gyfrifiadurol ac ap arlunio yn hyderus i greu hunanbortread manwl. Mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn meithrin eu medrau codio cynnar yn bwrpasol wrth gyfarwyddo llygoden raglenadwy i deithio o amgylch cwrs yn ofalus i gyrraedd cosyn o gaws, er enghraifft. Ar frig yr ysgol, mae’r disgyblion hynaf yn datblygu gwefannau yn fedrus ar gyfer hysbysebu eu mentrau i adeiladu meysydd chwarae sy’n hygyrch ac yn gynhwysol i blant.

Wrth i ddisgyblion symud drwy’r ysgol, mae medrau creadigol y rhan fwyaf yn datblygu’n gadarn. Fel rhan o’u gwaith thema am ‘Y Byd Mawr Crwn’, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn arbrofi â gwahanol ddeunyddiau ac arddulliau yn feistrolgar wrth efelychu gwaith arlunydd enwog o Siapan. Ym mlynyddoedd hŷn yr ysgol, maent yn datblygu darnau o waith celf trawiadol. Er enghraifft, maent yn creu murlun nodedig o’r afon Menai sy’n cael ei arddangos mewn caffi lleol i drigolion yr ynys ei werthfawrogi.

Mae medrau corfforol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn datblygu’n gyson. Mae’r disgyblion ieuengaf yn meithrin eu medrau cydbwyso wrth reoli beiciau dwy olwyn o amgylch llwybr yn hyderus, ac wrth ddringo’n ofalus ar gyfarpar yn yr ardal ddysgu allanol. Wrth iddynt aeddfedu, mae’r disgyblion hynaf yn cyfranogi’n llwyddiannus mewn ystod bwrpasol o weithgareddau corfforol, er enghraifft wrth ddatblygu eu medrau dawnsio gwerin yn frwdfrydig.

### Lles ac agweddau at ddysgu

Mae bron bob disgybl yn teimlo’n ddiogel a hapus o fewn amgylchedd deuluol, gynhaliol a chynhwysol yr ysgol. Maent yn falch eu bod yn cael eu parchu a’u cefnogi’n dda gan staff, a bod eu cyfraniad i fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi’n fawr. O oedran cynnar, mae disgyblion yn mynegi eu teimladau’n gyson, a bron heb eithriad, maent yn gwybod at bwy i droi am gyngor os oes unrhyw beth yn eu poeni gan fod yn hyderus y bydd staff yn ymateb ar unwaith i unrhyw ofid sydd ganddynt. O ganlyniad, mae lles emosiynol y rhan fwyaf o ddisgyblion yn gadarn, sydd yn ei dro yn eu cefnogi i ymroi’n bwrpasol i’w dysgu. Mae hyn yn dwysáu eu hymdeimlad o

berthyn i'r ysgol, ac mae'r ymdeimlad hwn yn cael ei gyfleu'n angerddol wrth iddynt ganu anthem yr ysgol.

Mae ymddygiad y rhan fwyaf o ddisgyblion yn dda iawn. Maent yn deall ac yn ymateb yn effeithiol i drefniadau'r ysgol i annog ymddygiad cadarnhaol ac yn dangos aeddfedrwydd wrth ofalu am ei gilydd. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn cyfarch ei gilydd, staff ac ymwelwyr yn gwrtais a pharchus ac maent yn barod iawn i drafod eu dysgu ac agweddau o fywyd yr ysgol gydag ymwelwyr. Maent yn awyddus i fynychu'r ysgol ac yn mwynhau'r amrywiaeth eang o brofiadau dysgu a ddarperir ar eu cyfer, sy'n cyfrannu'n gadarnhaol at gyfraddau presenoldeb da gan ddisgyblion.

Ar draws yr ysgol, mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos agweddau cadarnhaol at ddysgu. Maent yn mwynhau ac yn ymroi i'w tasgau yn ddiymdroi gyda chyffro a brwdfrydedd. Er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 3 a 4 yn meithrin eu medrau meddwl a datrys problemau yn llwyddiannus wrth gydweithio'n ddiwyd i ddatblygu brand past dannedd newydd ar gyfer cwmni 'Gwen Gwych.' O ganlyniad, maent yn ymgysylltu â phrofiadau a syniadau newydd yn effeithiol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn dangos diddordeb cynhenid yn eu sesiynau dysgu ac yn gwneud dewisiadau pwrpasol am yr hyn maent yn ei ddysgu fel rhan o'r themâu tymhorol. Mae hyn yn eu hymrwymo a'u cymell yn llwyddiannus i ddysgu. Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn frwdfrydig wrth feithrin eu medrau mewn gweithgareddau ysgogol yn y dosbarth ac yn yr ardaloedd dysgu tu allan. Maent yn cymryd tro yn synhwyrol ac yn cydweithio'n effeithiol wrth gyflawni tasgau, er enghraifft wrth ddyfalbarhau'n ddiwyd â'i gilydd i greu bwgan brain mawr ar gyfer y sioe amaethyddol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymateb yn gadarnhaol i adborth llafar athrawon a chymorthyddion wrth iddynt ymgymryd â'u gweithgareddau dysgu. Maent yn dangos parodrwydd i ymateb i sylwadau a gynigir iddynt ar lafar, ac yn ysgrifenedig, er mwyn gwella eu hymdrechion cychwynnol.

Mae'r rhan fwyaf o ddisgyblion yn ymwybodol o bwysigrwydd gwneud dewisiadau iach a chadw'n heini, er enghraifft wrth fwyta ffrwythau amrywiol yn ddyddiol o'r siop ffrwythau. Ar draws yr ysgol, maent yn ymateb yn gadarnhaol i gyfleoedd i gymryd rhan mewn ystod o weithgareddau corfforol yn ystod sesiynau dysgu, amseroedd egwyl, a thrwy fynychu clybiau a gweithgareddau allgyrsiol niferus. Mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar eu lles a'u ffitrwydd.

Mae bron bob disgybl yn ymwybodol o bwysigrwydd cadw'n ddiogel ar-lein ac yn deall pwysigrwydd peidio â rhannu cyfrineiriau ac unrhyw wybodaeth ddigidol gydag eraill. Caiff hyn ei atgyfnerthu'n llwyddiannus drwy ymweliadau rheolaidd gan yr heddwas lleol sy'n darparu sesiynau buddiol i gefnogi themâu penodol ac wrth i ddisgyblion ddylunio poster sy'n hyrwyddo pwysigrwydd diogelwch ar y we.

Mae llawer o ddisgyblion yn ymgymryd â chyfrifoldebau yn gydwybodol, er enghraifft drwy weithredu'n gyson fel aelodau o gynghorau'r ysgol a deall eu bod yn cynrychioli barn disgyblion eraill yng nghymuned yr ysgol. Mae'r cyngor eco yn gweithio'n ddiwyd yn y gymuned yn ei chadw'n daclus, er enghraifft. Fel rhan o waith thema 'Môr a Mynydd,' mae disgyblion yn nosbarthiadau'r dysgu sylfaen yn casglu sbwriel ar draeth Moel y Don er mwyn gwarchod bioamrywiaeth ar hyd yr afon Menai. O

ganlyniad, mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n gadarnhaol at eu datblygiad fel dinasyddion ifanc egwyddorol a chyfrifol sy'n arddangos gofal a pharch at eu cymuned a'u hardal leol.

Mae bron bob disgybl yn falch o'u cyfraniad at weithgareddau codi arian at achosion dyngarol bwriadus, er enghraifft wrth godi arian tuag at helpu trigolion Wcráin. Mae hyn yn cael effaith gadarn ar ymwybyddiaeth y rhan fwyaf o ddisgyblion o anghenion pobl eraill yn eu cymuned a'r byd ehangach, ac yn cyfrannu'n dda at eu datblygiad moesol.

**Addysgu a phrofiadau dysgu**

Mae staff yn cydweithio'n llwyddiannus i ddarparu cwricwlwm cyfoethog, ysgogol ac eang. Darperir profiadau dysgu sy'n sicrhau dilyniant a datblygiad ym medrau'r disgyblion ar draws y meysydd dysgu. Mae hyn yn ei dro yn eu cefnogi i feithrin a chymhwyso'u medrau mewn ystod o gyd-destunau diddorol yn llwyddiannus.

Rhinwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r modd mae staff yn annog disgyblion i gyfrannu syniadau ar gychwyn a thrwy gydol eu themâu, ac yna'n eu defnyddio'n grefftus wrth gynllunio profiadau diddorol ar eu cyfer. Er enghraifft, ar ddiwedd eu thema 'Elen Benfelen', mae'r disgyblion ieuengaf yn penderfynu cynllunio picnic gyda'u hoff dedis. Mae hyn yn tanio dychymyg ac ymgysylltiad y rhan fwyaf o ddisgyblion at eu dysgu yn gelfydd.

Mae staff yn paratoi gweithgareddau ysgogol a diddorol sy'n cefnogi'r disgyblion i gymhwyso eu medrau ar draws y meysydd dysgu. Er enghraifft, wrth gefnogi disgyblion i gymhwyso eu medrau rhifedd, darperir cyfleoedd gwerthfawr gan athrawon i gefnogi'r disgyblion hynaf i gydweithio'n llwyddiannus ag electromagnetedd wrth arbrofi i weld beth yw'r cysylltiad rhwng nifer y troadau ar wifren a chyfanswm y clipiau papur a godir.

Cynllunnir cyfleoedd gwerthfawr gan athrawon i gefnogi dysgu'r disgyblion am eu cynefin, ac am hanes a thraddodiadau cenedlaethol a rhyngwladol. Er enghraifft, mae'r disgyblion hynaf yn ymweld â Bryn Celli Ddu, sy'n nodwedd amlwg ar fathodyn yr ysgol. O ganlyniad, mae disgyblion yn dangos diddordeb a balchder cynhenid yn eu pentref a'r gymuned ehangach. Mae staff yn darparu profiadau dysgu buddiol i ddisgyblion sy'n adlewyrchu natur ddiwylliannol Cymru. Trwy eu gwaith ymchwil am hanes y gantores enwog Shirley Bassey, mae'r disgyblion hynaf yn meithrin empathi a thrugaredd tuag at unigolion sy'n profi anghyfiawnder mewn cymunedau lleiafrifoedd ethnig yn llwyddiannus.

Nodwedd arbennig o'r ddarpariaeth yw'r modd mae staff yn defnyddio sbardunau ar gychwyn themâu. Trwy wahodd ymwelwyr amrywiol i'r ysgol, maent yn cyfoethogi a meithrin dealltwriaeth disgyblion o feysydd dysgu penodol. Er enghraifft, mae cwmni ynni lleol yn ymweld â'r disgyblion hynaf i drafod manteision cynhyrchu egni adnewyddadwy ar Ynys Môn. Yn ogystal, mae'r disgyblion ieuengaf yn holi milfeddyg lleol yn bwrpasol am ei gwaith yn gofalu am anifeiliaid. Mae'r profiadau hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at ysbrydoli disgyblion at eu dysgu, er enghraifft wrth godi eu dyheadau am yrfaoedd a'r byd gwaith.

Mae gan staff dysgu sylfaen wybodaeth gadarn am yr egwyddorion. Rhoddir pwyslais clir ar feithrin annibyniaeth a datblygu medrau disgyblion trwy ddarparu profiadau ymarferol ac ysgogol sy’n cael eu cyflwyno mewn amgylchedd dysgu cyfoethog. Er enghraifft, mae’r disgyblion ieuengaf yn cymhwyso eu medrau siarad a thrin arian mewn sefyllfaoedd go iawn yn effeithiol wrth chwarae rôl tra’n prynu llysiau a ffrwythau yn Siop y Fferm. O ganlyniad, mae’r rhan fwyaf o ddisgyblion yn frwdfrydig wrth ymgymryd â’u gweithgareddau dysgu gan gyd-chwarae a chyd-chwarae’n ddedwydd â’i gilydd.

Un o rinweddau cryfaf yr ysgol yw’r berthynas waith gynnes rhwng staff â’i disgyblion. Mae staff yn trin disgyblion â charedigrwydd, yn gyfartal ac ag ystyriaeth ac mae hyn yn creu amgylchedd cynhwysol a hapus sy’n cymell y disgyblion i ddysgu a chydweithio’n effeithiol. Mae'r holl staff yn rheoli ymddygiad disgyblion yn feistrolgar ac mae hyn yn cael effaith gadarnhaol ar les a dysgu’r disgyblion.

Mae staff yn modelu iaith yn gelfydd ac maent yn arddel disgwyliadau uchel ar gyfer safonau llafar disgyblion, a’u bod yn gwneud defnydd llawn o’r Gymraeg ymhob agwedd o‘u chwarae a’u dysgu. Mae ethos Cymreig cryf yr ysgol, ynghyd â'r ddarpariaeth, yn hybu'r disgyblion i wneud defnydd pwrpasol o'r Gymraeg ymhob agwedd o fywyd yr ysgol, sydd yn ei dro yn eu datblygu'n ddysgwyr dwyieithog hyderus.

Mae athrawon yn sicrhau rhediad llyfn i’r sesiynau dysgu ac yn defnyddio cydbwysedd o dechnegau effeithiol sy’n cynnwys gweithgareddau pâr a grŵp. Mae hyn yn datblygu medrau ieithyddol a chymdeithasol y disgyblion yn werthfawr. Maent yn gosod amcanion clir ar ddechrau sesiynau ac yn defnyddio amcanion dysgu yn bwrpasol i sicrhau bod disgyblion yn deall gofynion tasgau. Yn gyffredinol, ar draws yr ysgol, mae athrawon yn gwneud gorddefnydd o daflenni gwaith mewn gweithgareddau dysgu.

Mae athrawon yn defnyddio ystod o ddulliau ac adnoddau amrywiol i gymell dysgu’r disgyblion yn llwyddiannus. Maent yn defnyddio dulliau holi amrywiol yn fedrus er mwyn ymestyn dealltwriaeth y disgyblion, er enghraifft wrth drafod nodweddion creu hysbyseb effeithiol i gyfleu neges heddwch bwerus gyda’r disgyblion hynaf. Mae staff yn darparu adborth ystyrlon i ddisgyblion sy’n eu galluogi i wybod pa mor dda maent yn cyflawni a’r gefnogaeth sydd ei hangen arnynt i wella darnau o waith penodol. Darperir cyfleoedd cyson i ddisgyblion fyfyrio ar eu gwaith yn ystod ac ar ddiwedd eu themâu, ac i adnabod a gweithredu ar beth i’w wneud a sut i’w gyflawni er mwyn symud eu dysgu ymlaen. Er hyn, nid yw athrawon bob tro’n darparu cyfleoedd digon cyson i ddisgyblion wneud dewisiadau annibynnol am sut i gyflawni a chyflwyno eu gwaith.

Mae staff yn gwerthuso ac asesu cynnydd a datblygiad unigolion a grwpiau penodol yn bwrpasol. Maent yn adnabod yn gynnar y rheini sy’n tangyflawni a’r rhai hynny sy’n fwy abl, ac yn addasu’r ddarpariaeth yn unol â’r angen. Mae staff yn darparu adroddiadau blynyddol pwrpasol i rieni am gynnydd a chyflawniadau’r disgyblion ac yn rhoi arweiniad pwrpasol ar sut maent yn gallu cefnogi eu plant gartref.

## Gofal, cymorth ac arweiniad

Mae’r ysgol yn gymuned ddysgu ofalgar a chynhwysol sy’n gwerthfawrogi cyfraniad pob disgybl. Mae staff yn gosod pwyslais cryf ar adnabod y plentyn fel unigolyn cyflawn, sy’n golygu bod staff yn ymateb i’w hanghenion amrywiol yn gydwybodol. Mae staff yn gosod pwyslais cryf ar hybu ymddygiad cadarnhaol a meithrin parch disgyblion at ei gilydd yn llwyddiannus. Caiff hyn ei amlygu yn ymddygiad da iawn a chwrteisi cynhenid y rhan fwyaf o ddisgyblion ar draws yr ysgol.

Mae staff yn defnyddio ystod eang o ddulliau lles perthnasol i sicrhau bod disgyblion yn barod i ddysgu. Yn ystod sesiynau cofrestru dyddiol, mae staff yn darparu adnodd dyddiol i ddisgyblion nodi eu lles emosiynol. Yn ychwanegol, mae rhaglenni cefnogi lles emosiynol a chymdeithasol gwerthfawr yn cael eu darparu yn ‘Yr Hafan’ er mwyn galluogi disgyblion i ymgysylltu’n gadarnhaol â’u dysgu.

Mae gan yr ysgol ethos cynhwysol a systemau olrhain cynnydd priodol i gynorthwyo disgyblion ag ADY. Mae anghenion unigol yn cael eu hadnabod yn gynnar ac mae rhaglenni cefnogi amrywiol, gan gynnwys lles emosiynol, llythrennedd a rhifedd, yn diwallu anghenion disgyblion ADY yn effeithiol. Ar draws yr ysgol, caiff disgyblion eu cefnogi’n fwriadus gan dîm o staff gweithgar sy’n monitro eu cynnydd yn briodol. O ganlyniad, mae ganddynt ddealltwriaeth dda o gynnydd disgyblion ag ADY. Mae’r cydlynydd ADY yn cynnal sesiynau monitro gyda’r staff, disgyblion a rhieni, gan nodi’r cynnydd a chynllunio’r camau nesaf ar gyfer eu lles a’u dysgu. Mae staff cydweithio’n dda â nifer o asiantaethau arbenigol i hyrwyddo a chefnogi disgyblion ag anghenion ieithyddol a chorfforol penodol. O ganlyniad, mae’r disgyblion ag ADY yn gwneud cynnydd da yn eu medrau dros amser.

Darperir sesiynau cydaddoli priodol gan staff a chyfleoedd i ddisgyblion fyfyrio ar foesau a sut i ofalu am ei gilydd mewn cymdeithas gynhwysol. Mae cyfleoedd i ddisgyblion ddatblygu gwerthoedd cadarn ac archwilio credoau yn fuddiol; er enghraifft, mae disgyblion Blwyddyn 1 a 2 yn creu animeiddiad yn adrodd Stori’r Geni ac yn ymchwilio i draddodiadau gŵyl y Diwali. Ar draws yr ysgol, mae staff yn manteisio ar gyfleoedd pwrpasol i wahodd ymwelwyr, gan gynnwys rhieni i siarad â’r disgyblion am eu bywyd, eu crefydd a’u treftadaeth.

Mae staff yn hyrwyddo dealltwriaeth disgyblion o’u hunaniaeth, treftadaeth a’r diwylliant Cymreig yn llwyddiannus. Maent yn cyfoethogi dysgu’r disgyblion trwy ddarparu profiadau dysgu am leoliadau arwyddocaol lleol fel hanes y Tŵr Marcwis ac ymweld â chartref y bardd Hedd Wyn yn yr Ysgwrn. Mae hyn yn dwysáu dealltwriaeth y disgyblion o natur gynhenid eu hardal leol o gymharu â byw mewn ardaloedd eraill yng Nghymru a thu hwnt.

Mae sesiynau addysg gorfforol rheolaidd ac ystod eang o chwaraeon allgyrsiol yn darparu cyfleoedd gwerth chweil i ddisgyblion fwynhau manteision ymarfer corff. Er enghraifft, mae staff yn darparu cyfleoedd gwerthfawr i ddisgyblion chwarae pêl-fasged wrth ddefnyddio cadeiriau olwyn, sy’n cyfrannu’n werthfawr at ethos cynhwysol yr ysgol.

Mae’r ysgol yn darparu ystod dda o grwpiau sy’n sicrhau bod disgyblion yn cyfrannu’n bwrpasol at agweddau pwysig ar fywyd a gwaith yr ysgol. Mae’r cyngor ysgol yn cyfoethogi’r ddarpariaeth yn yr ardal ddysgu tu allan drwy wario cyllideb

benodol wrth fuddsoddi'n ddoeth mewn archebu beiciau cydbwyso ar gyfer y disgyblion ieuengaf, ac offer chwarae amrywiol i annog y disgyblion hynaf i gyd-chwarae'n ddedwydd yn ystod amseroedd egwyl a chinio. Mae hyn yn cyfrannu'n llwyddiannus at feithrin medrau corfforol disgyblion, yn ogystal â chynnal safonau ymddygiad cadarn ar draws yr ysgol.

Darperir cyfleoedd priodol i ddisgyblion berfformio a datblygu'u dychymyg trwy'r celfyddydau mynegiannol, creadigol a chorfforol, er enghraifft wrth gystadlu mewn eisteddfodau'r ysgol a rhai lleol, a chymryd rhan mewn diwrnodau chwaraeon clwstwr. Mae hyn yn datblygu hunanhyder a medrau cydweithio disgyblion yn fedrus.

Mae gan yr ysgol drefniadau effeithiol i hyrwyddo prydlondeb a phresenoldeb rheolaidd ymhlith disgyblion, gan gynnwys monitro dyddiol, cyfathrebu'n rheolaidd â rhieni a gwaith dilynol wedi'i gefnogi gan y swyddog lles. O ganlyniad, mae cyfraddau presenoldeb y disgyblion yn gyson dda. Mae gan yr ysgol ddiwylliant diogelu cryf ac mae systemau cadarn yn cyfrannu'n gadarn at sicrhau bod disgyblion yn ddiogel yn yr ysgol. Mae trefniadau'r ysgol i ddiogelu disgyblion yn bodloni'r gofynion ac nid ydynt yn peri pryder.

## Arweinyddiaeth a rheolaeth

Mae gan y pennaeth weledigaeth glir sy'n seiliedig ar gydweithio cadarn rhwng holl randdeiliaid yr ysgol, er mwyn darparu'r cyfleoedd gorau ar gyfer pob disgybl. Mae'n gwireddu arwyddair yr ysgol, sef 'cymuned sy'n tyfu a ffynnu fel un' yn llwyddiannus, ac yn meithrin gwerthoedd sy'n ysgogi disgyblion i fod yn ddysgwyr hyderus ac iach sy'n ymfalchïo yn eu cymuned dysgu gynhwysol, gartrefol a Chymreig.

Mae gan y pennaeth ddisgwyliadau uchel o'i hun, y staff a'r disgyblion. Mae hyn yn annog disgyblion i ddatblygu agweddau cadarnhaol at eu dysgu ac i wneud eu gorau. O ganlyniad, mae safonau ymddygiad yn dda iawn ar draws yr ysgol. Mae hyn yn nodwedd arbennig o'r ysgol.

Mae ymdeimlad cryf o deulu wedi'i sefydlu yn yr ysgol, ac mae'r pennaeth yn gosod lles disgyblion a staff yn ganolog i'w holl waith. Mae tîm brwdfrydig o athrawon a chymorthyddion yn cydweithio'n effeithiol er mwyn sicrhau darpariaeth gyfoethog mewn cyd-destun lleol a Chymreig. Fel rhan o thema 'Yn yr ardd', mae garddwr lleol yn rhannu ei arbenigedd a'i brofiad gyda ddisgyblion Blwyddyn 1 a 2 er mwyn eu cefnogi i wella eu medrau garddio, er enghraifft. Mae arddel sbardunau diddorol fel hyn ar ddechrau themâu yn ennyn brwdfrydedd, diddordeb ac ymgysylltiad disgyblion at eu dysgu yn gelfydd.

Rhoddir ffocws clir ar fynd i'r afael â blaenoriaethau cenedlaethol a lleol, fel lleihau effaith tlodi ar gyrhaeddiad addysgol disgyblion, gweithredu Cwricwlwm i Gymru, a gwella datblygiad medrau llythrennedd, rhifedd a digidol disgyblion. Mae arweinwyr yn gosod bri ar ddatblygu medrau llafar Cymraeg disgyblion, er enghraifft wrth wahodd cerddor lleol i gydweithio â'r disgyblion i gyfansoddi anthem fachog i'r ysgol.

Mae gan arweinwyr drefniadau hunanwerthuso manwl ac effeithiol. Mae gwerthusiadau rheolaidd staff yn creu darlun clir o gryfderau'r ysgol a'i meysydd i'w gwella, ac yn cyfrannu'n gadarn at lunio blaenoriaethau gwella. Mae'r cynlluniau gwella yn rhoi sylw pwrpasol i flaenoriaethau cenedlaethol ac mae gan arweinwyr

hanes o weithredu newidiadau a gwelliannau cyson. Er enghraifft, maent wedi sicrhau bod disgyblion wedi gwneud cynnydd da yn meithrin eu medrau rhesymu rhifedd ar draws y meysydd dysgu a phrofiad yn ddiweddar.

Mae’r corff llywodraethol yn gweithredu’n effeithiol ac yn cynnig cymorth a her, fel y bo’n briodol. Mae ganddynt wybodaeth dda am y ddarpariaeth ac effaith gweithdrefnau’r ysgol ar les a chynnydd disgyblion. Maent yn rhannu cyfrifoldebau yn llwyddiannus, yn cynnal trafodaethau rheolaidd ag arweinwyr y gwahanol feysydd cwricwlaidd ac yn cynnal teithiau dysgu priodol i werthuso’r ddarpariaeth ar gyfer meithrin lles emosiynol disgyblion, er enghraifft. Maent yn cael ac yn ymateb i wybodaeth a chyflwyniadau defnyddiol gan y pennaeth am waith yr ysgol. Maent yn cydweithio’n bwrpasol â staff a disgyblion i sicrhau bod gan yr ysgol drefniadau priodol i hyrwyddo bwyta ac yfed yn iach. Mae arweinwyr a staff yn hyrwyddo diwylliant diogelu yn gadarn ac, o ganlyniad, mae disgyblion yn teimlo’n ddiogel yn yr ysgol.

Mae arweinwyr yn monitro'r gyllideb yn ofalus. Maent yn sicrhau bod penderfyniadau gwariant yn canolbwyntio’n synhwyrol ar flaenoriaethau'r ysgol ar gyfer gwelliant. Yn ddiweddar, mae arweinwyr wedi buddsoddi mewn adnodd darllen digidol pwrpasol sy’n cyfrannu’n gadarnhaol at feithrin medrau a mwynhad disgyblion at ddarllen. Mae arweinwyr yn defnyddio’r grant datblygu disgyblion, gan gynnwys cyfraniadau gan y gymdeithas rhieni ac athrawon, yn ddoeth i gefnogi ymweliadau preswyl ac i weithredu rhaglenni cefnogi penodol ar draws yr ysgol sy’n cefnogi datblygiad lles a medrau rhifedd a llythrennedd disgyblion yn briodol.

Ar y cyfan, mae gan arweinwyr berthynas gynhyrchiol â rhieni. Maent yn rhannu gwybodaeth berthnasol am fywyd a gwaith yr ysgol yn briodol, er enghraifft drwy e-bost, ap ac ar safle cyfrwng cymdeithasol yr ysgol. Er hyn, ar brydiau, nid yw negeseuon yn cael eu cyfathrebu’n ddigon clir ac amserol â rhieni.

Mae staff yn darparu cyfleoedd rheolaidd i’r gymuned leol ddathlu gweithgareddau’r ysgol. Fel rhan o drefniadau ‘dathlu diwedd themâu’, mae rhieni’n ymweld ag arddangosfeydd trawiadol sydd wedi eu trefnu gan y disgyblion hynaf sy’n codi eu hymwybyddiaeth o achosion ac effeithiau cynhesu byd-eang yn llwyddiannus, er enghraifft. At ei gilydd, nid oes dealltwriaeth gytûn rhwng yr ysgol a’r rhieni o sut i godi materion a all effeithio ar les a dysgu eu plant.

Mae arweinwyr yn sicrhau bod cyfleoedd dysgu cadarn ar gael i staff i gefnogi eu dysgu proffesiynol, sy'n cysylltu'n llwyddiannus â blaenoriaethau gwella’r ysgol. Maent yn monitro effaith y gweithgareddau hyn ar y ddarpariaeth a’r dulliau addysgu yn rheolaidd. Mae arweinwyr yn nodi arfer orau yr ysgol ac yn darparu cyfleoedd i aelodau staff ymweld â dosbarthiadau ei gilydd sy’n ysgogi deialogau proffesiynol bwriadus. Mae staff hefyd yn cydweithio ag ysgolion eraill i rannu a datblygu arfer broffesiynol, yn arbennig ym maes llythrennedd.

## Sail dystiolaeth yr adroddiad

Cyn yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn dadansoddi deilliannau o’r holiadur i rieni a holiadur i ddisgyblion, ac ystyried barn athrawon, staff a’r corff llywodraethol/aelodau’r pwyllgor rheoli’ trwy eu hymatebion i’w holiadur

Yn ystod yr arolygiad, bu arolygwyr:

- yn cynnal cyfarfod â rhieni i glywed eu barn am yr ysgol a’i heffeithiolrwydd
- yn cyfarfod â’r pennaeth, y llywodraethwyr, uwch arweinwyr ac arweinwyr canol ac athrawon unigol i werthuso effaith gwaith yr ysgol
- yn cyfarfod â disgyblion i drafod eu gwaith, gwrando arnynt yn darllen a chael eu barn am agweddau amrywiol ar eu hysgol
- yn cyfarfod â grwpiau o ddisgyblion mewn rolau arwain, fel cynrychiolwyr y cyngor ysgol a’r pwyllgor eco
- yn ymweld â sampl eang o ddosbarthiadau, gan gynnwys grwpiau cymorth dysgu, a’r ganolfan adnoddau arbenigol (lle y bo’n briodol), ac yn ymgymryd ag amrywiaeth o deithiau dysgu i arsylwi disgyblion yn dysgu ac i weld staff yn addysgu mewn amrywiaeth o leoliadau, gan gynnwys ystafelloedd dosbarth, grwpiau cymorth (lle y bo’n briodol), ac mewn ardaloedd awyr agored
- yn ymweld â’r ganolfan adnoddau arbenigol yn yr ysgol i weld dysgu’r disgyblion (lle y bo’n briodol)
- yn arsylwi ac yn siarad â disgyblion amser cinio ac amser egwyl, ac mewn sampl o glybiau ar ôl ysgol
- yn mynychu gwasanaethau ac addoli dyddiol ar y cyd
- yn edrych yn fanwl ar brosesau hunanwerthuso’r ysgol
- yn ystyried cynllun gwella’r ysgol ac yn edrych ar dystiolaeth i ddangos pa mor dda roedd yr ysgol wedi bwrw ymlaen â gwelliannau a gynlluniwyd
- yn craffu ar amrywiaeth o ddogfennau’r ysgol, gan gynnwys gwybodaeth am asesu a chynnydd disgyblion, cofnodion cyfarfodydd staff a’r corff llywodraethol, gwybodaeth am les disgyblion, gan gynnwys diogelu disgyblion, a chofnodion hyfforddiant a datblygiad proffesiynol staff

Ar ôl yr arolygiad ar y safle a chyn cyhoeddi’r adroddiad, fe wnaeth Estyn:

- adolygu canfyddiadau’r arolygiad ochr yn ochr â’r dystiolaeth ategol gan y tîm arolygu er mwyn dilysu, safoni a sicrhau ansawdd yr arolygiad

## Copïau o'r adroddiad

Mae copïau o'r adroddiad hwn ar gael gan yr ysgol ac ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru) Lluniwyd yr adroddiad hwn yn unol ag Adran 28 Deddf Addysg 2005.

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru: Estyn

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Cymraeg i Saesneg).**

© Hawlfraint y Goron 2024: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.

Dyddiad cyhoeddi: 03/09/2024